Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Canllawiau Arfarniad Ymarfer Cyfan

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Tudalen 3** | Siart Llif |
| **Tudalen 4** | Nodiadau Cyfarwyddyd |
| **Tudalen 8** | Atodiad 1: Datganiad Adolygwr Cymheiriaid |
| **Tudalen 9** | Atodiad 2: Llythyr WP1 |
| **Tudalen 11** | Atodiad 3: Llythyr WP2 |
| **Tudalen 12** | Atodiad 4: Cwestiynau Cyffredin |


External Roles
Any activity that a doctor completes when they are employed by another organisation and is subject to supervision.
Doctors who are operating autonomously of any employing organisation whose activities are outside of their role.
Peer Review?
Yes
No further discussion required: document in summary.
No
Does the Appraiser believe that they have the expertise to discuss and evaluate the doctor's evidence in this particular role?
No
Peer Review (WP1)
Yes
Sufficient evidence?
Yes
No
Discuss and document in the usual way.
PDP
Peer Review?
Yes
1. Is this from an institution?
2. Is this from a medical professional?
3. Is it adequate?
Yes
No further discussion required: document in summary.
No
Discuss with Appraisal Coordinator or Appraisal Lead
No
Does the Appraiser believe that they have the expertise to discuss and evaluate the doctor's evidence in this particular role?
No
Peer Review (WP1)
Yes
Sufficient evidence?
Yes
No
Discuss and document in the usual way.
PDP

# Arfarniad Ymarfer Cyfan: Nodiadau Cyfarwyddyd

**Cyflwyniad**

Gyda dyfodiad ailddilysu, mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) yn ei gwneud yn ofynnol i feddyg gyflwyno gwybodaeth ategol sy'n ymdrin â phob agwedd ar eu dyletswyddau proffesiynol yn eu prif arfarniad.

Mae arfarnu yn adolygiad ffurfiannol, systematig a rheolaidd o gyflawniadau blaenorol gyda chynllunio adeiladol ar gyfer cynnydd yn y dyfodol. Mae'n broses barhaus ac yn rhan o ddiwylliant dysgu. Felly, dylai cyfranogiad meddygon mewn arfarniadau fod yn broses gadarnhaol a chefnogol.

Ni all, ac ni ddylai arfarniad gymryd lle llywodraethu clinigol. Er enghraifft, nid yw'n golygu nodi perfformiad gwael. Mae gan yr agweddau hyn ar lywodraethu clinigol ddibenion gwahanol i arfarnu datblygiadol a bydd y Byrddau Iechyd yn delio â nhw drwy brosesau ar wahân.

Gan fod gan Arfarnwyr yng Nghymru gryn brofiad ac arbenigedd yn y broses arfarnu, maent mewn sefyllfa i arfarnu meddygon yn y rhan fwyaf o'u rolau allanol.

**Gellir ystyried rolau'r meddyg mewn perthynas ag Arfarnu Ymarfer Cyfan fel a ganlyn:**

**1. Unrhyw weithgaredd y byddai disgwyl i feddyg ei gyflawni yn eu rôl:**

Trafod a chofnodi yn y ffordd arferol.

**2. Unrhyw weithgaredd y bydd meddyg yn ei gwblhau pan fydd yn cael eu cyflogi gan sefydliad arall ac yn cael eu goruchwylio:**

**i. Os yw'r meddyg WEDI cael adolygiad gan gymheiriaid yn y rôl benodol hon:**

Nid oes angen trafodaeth bellach. Dylid gwneud cofnod byr yng nghrynodeb y meddyg sy'n dangos eu bod wedi cael adolygiad gan gymheiriaid yn y rôl hon.

**ii. Os NAD yw'r meddyg wedi cael adolygiad gan gymheiriaid yn y rôl benodol hon:**

**a. Os yw'r Arfarnwr yn credu bod ganddo'r arbenigedd i drafod ac arfarnu tystiolaeth y meddyg yn y rôl benodol hon:**

Trafod a chofnodi yn y ffordd arferol.

Dylai'r Arfarnwr drafod gyda'r meddyg y wybodaeth ategol y byddai disgwyl iddynt ei chyflwyno ar gyfer y rôl hon. Gall y broses gael ei hysbysu gan y cwestiynau canlynol:

- Sut oeddech chi'n gymwys i ymgymryd â'r rôl hon?
- Sut ydych chi'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am y rôl hon?
- Sut ydych chi'n dangos ansawdd eich ymarfer?
- Sut ydych chi'n delio â digwyddiadau arwyddocaol?
- Sut ydych chi'n cael adborth?

Gellir gwneud cofnodion yn CDP y meddyg mewn perthynas â'r drafodaeth uchod er mwyn hwyluso datblygiad addysgol y meddyg yn y rôl hon. Os, yn y cyfarfod arfarnu dilynol, nodir nad yw'r meddyg wedi cwblhau'r amcanion CDP hyn, dylid anfon llythyr WP1 i'r perwyl hwn.

Cydnabyddir bod adolygiad gan gymheiriaid mewn rôl arall yn ymarfer addysgol werthfawr ynddo'i hun ac felly dylid ei annog yn weithredol. Felly, byddai'n ddefnyddiol trafod y mater hwn gyda'r meddyg yn ystod y cyfarfod arfarnu, hyd yn oed os yw'r Arfarnwr yn credu ei fod mewn sefyllfa i drafod a gwerthuso tystiolaeth y meddyg yn y rôl benodol hon. Gellid cynnwys cofnod i'r perwyl hwn yn CDP y meddyg gan bwysleisio manteision addysgol yr ymarfer hwn.

**b. Os nad yw'r Arfarnwr yn credu bod ganddo'r arbenigedd i drafod a gwerthuso tystiolaeth y meddyg yn y rôl benodol hon neu os yw'r rôl, ym marn yr Arfarnwr, yn rôl sylweddol:**

Mae'r meddyg angen adolygiad gan gymheiriaid yn y rôl hon (llythyr WP1 - Atodiad 1).

Nid oes angen i'r meddyg gael ei arfarnu'n ffurfiol er mwyn cael tystiolaeth o'r fath. Mewn rhai achosion, efallai y bydd y sefydliad sy'n cyflogi o'r farn bod y meddyg angen arfarniad ffurfiol/adolygiad perfformiad mewn rôl o'r fath, a gellir bwydo hyn i mewn i'r prif arfarniad yn y ffordd arferol.

Mewn achosion o’r fath, gellir rhoi proses WPA ar waith gyda’r llythyr WP1 yn cael ei gyhoeddi, gan annog y meddyg, os oes angen, i gysylltu â’u RO am gyngor. Gellir defnyddio’r llythyr WP2, os oes angen, yn ddiweddarach i ofyn yn benodol i’r RO am gyngor ynghylch yr hyn y dylai’r meddyg ei gyflwyno fel tystiolaeth at ddibenion Arfarniad Ymarfer Cyfan.

Mae'n bwysig nodi mai bwriad proses WPA yw cefnogi'r meddyg yn ei ymgais i gael y dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer Arfarniad Ymarfer Cyfan gan y cyrff perthnasol.

**3. Arall (mae’r categori hwn yn cynnwys y meddygon hynny sy’n gweithredu’n annibynnol ar unrhyw sefydliad cyflogi y mae eu gweithgarwch y tu allan i’w rôl. Er enghraifft, ymarfer annibynnol fel gweithio fel meddyg ar yr ystlys mewn digwyddiadau chwaraeon, ymyriadau cosmetig, presgripsiynu ar-lein:**

Dylid rheoli’r meddygon hyn fesul achos. *Dylai’r Arfarnwyr drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda’u Cydlynydd Arfarnu neu eu Harweinydd Arfarnu.*

**i. Os yw’r meddyg WEDI cael adolygiad gan gymheiriaid yn y rôl benodol hon:**

Dylai’r Arfarnwr werthuso’r adolygiad gan gymheiriaid mewn perthynas â’r meini prawf canlynol: -

- Ai gan sefydliad mae hwn?
- Ai gan weithiwr meddygol proffesiynol mae hwn?
- A oes angen i mi ofyn am gyngor gan fy Nghydlynydd Arfarnu/Arweinydd Arfarnu ynghylch pa mor ddigonol yw’r wybodaeth hon?

Os nad oes gan yr Arfarnwr unrhyw bryderon ynghylch yr uchod (yn dilyn trafodaeth gyda’r Cydlynydd Gwerthuso/Arweinydd Arfarnu os oes angen), nid oes angen trafodaeth bellach. Dylid gwneud cofnod byr yng nghrynodeb y meddyg sy’n dangos eu bod wedi cael adolygiad gan gymheiriaid yn y rôl hon.

**ii. Os NAD yw’r meddyg wedi cael adolygiad gan gymheiriaid yn y rôl benodol hon:**

**a. Os yw’r Arfarnwr yn credu bod ganddo/ganddi yr arbenigedd i drafod ac arfarnu tystiolaeth y meddyg yn y rôl benodol hon:**

Trafod a chofnodi yn y ffordd arferol.

Dylai’r Arfarnwr drafod gyda’r meddyg y wybodaeth ategol y byddai disgwyl iddynt ei chyflwyno ar gyfer y rôl hon. Gall y broses fod

yn seiliedig ar y cwestiynau canlynol: -

- Sut oeddech chi'n gymwys i ymgymryd â'r rôl hon?
- Sut ydych chi'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am y rôl hon?
- Sut ydych chi'n dangos ansawdd eich ymarfer?
- Sut ydych chi'n delio â digwyddiadau arwyddocaol?
- Sut ydych chi'n cael adborth?

Gellir gwneud cofnodion yn CDP y meddyg mewn perthynas â'r drafodaeth uchod er mwyn hwyluso datblygiad addysgol y meddyg yn y rôl hon. Os, yn y cyfarfod arfarnu dilynol, nodir nad yw'r meddyg wedi cwblhau'r amcanion CDP hyn, dylid anfon llythyr WP1 i'r perwyl hwn.

Cydnabyddir bod adolygiad gan gymheiriaid mewn rôl arall yn ymarfer addysgol werthfawr ynddo'i hun ac felly dylid ei annog yn weithredol. Felly, byddai'n ddefnyddiol trafod y mater hwn gyda'r meddyg yn ystod y cyfarfod arfarnu, hyd yn oed os yw'r Arfarnwr yn credu ei fod mewn sefyllfa i drafod a gwerthuso tystiolaeth y meddyg yn y rôl benodol hon. Gellid cynnwys cofnod i'r perwyl hwn yn CDP y meddyg gan bwysleisio manteision addysgol yr ymarfer hwn.

**b. Os nad yw'r Arfarnwr yn credu bod ganddo'r arbenigedd i drafod a gwerthuso tystiolaeth y meddyg yn y rôl benodol hon neu os yw'r rôl, ym marn yr Arfarnwr, yn rôl sylweddol:**

Mae'r meddyg angen adolygiad gan gymheiriaid yn y rôl hon (llythyr WP1 - Atodiad 1).

Mewn achosion o'r fath, gellir rhoi proses WPA ar waith gyda'r llythyr WP1 yn cael ei gyhoeddi, gan annog y meddyg, os oes angen, i gysylltu â'u RO am gyngor. Gellir defnyddio'r llythyr WP2, os oes angen, yn ddiweddarach i ofyn yn benodol i'r RO am gyngor ynghylch yr hyn y dylai'r meddyg ei gyflwyno fel tystiolaeth at ddibenion Arfarniad Ymarfer Cyfan.

Mae'n bwysig nodi mai bwriad proses WPA yw cefnogi'r meddyg yn ei ymgais i gael y dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer Arfarniad Ymarfer Cyfan gan y cyrff perthnasol.

<u>Templed MARS ar gyfer cofnodi Ymarfer Annibynnol</u>

Mae templed wedi cael ei ddatblygu ar gyfer MARS sy'n hwyluso'r broses o gofnodi gwybodaeth sy'n ymwneud ag Ymarfer Annibynnol, sy'n ofynnol ar gyfer arfarnu ac ailddilysu.

*Ychwanegu Gwybodaeth > Categori 'Arfarniad Ymarfer Cyfan' > Math 'Ymarfer Annibynnol'*

**Atodiad 1**

**Datganiad Adolygwr Cymheiriaid**

Yr wyf yn ymwybodol o'r rôl y mae'r meddyg hwn yn ei chyflawni fel meddyg annibynnol. Yn rhinwedd fy swydd fel meddyg sydd wedi cofrestru gyda'r GMC ac sy'n gymheiriad yn y maes hwn, rwy'n cadarnhau eu bod wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn cynnal eu sgiliau a'u gwybodaeth mewn modd sy'n gymesur â'r rôl. Maent wedi darparu tystiolaeth o ddysgu a myfyrio ar gyfer y rôl. Maent yn perfformio i lefel foddhaol ac nid oes unrhyw bryderon am eu hymarfer.

Enw:

Llofnod:

Dyddiad

**Atodiad 2**

**WP1: Llythyr gan yr Arfarnwr at y Meddyg**

***(Dyddiad)***

**Derbynnydd yn Unig**

**Ynghylch: Peidio â chynnwys adolygiad gan gymheiriaid neu dystiolaeth ar gyfer rôl/rolau eraill**

Annwyl (*nodwch enw'r meddyg*)

Yn ystod eich arfarniad ar (*nodwch y dyddiad*) trafodwyd eich rôl/rolau fel (*nodwch y rôl*)

☐ Fel Arfarnwr, ni fyddwn yn gallu dilysu gwybodaeth a ddarparwyd am y rôl/rolau hyn mewn ffordd ystyrlon.

☐ Mae'r rôl hon/yn rôl sylweddol.

☐ Dim digon o dystiolaeth ar gyfer y rôl/rolau hyn (nid yw amcanion CDP y meddyg, y cytunwyd arnynt yn ystod eu cyfarfod arfarnu blaenorol, sy'n ymwneud â'r rôl/rolau hyn, wedi'u cwblhau).

Rwyf wedi cofnodi yn y crynodeb arfarnu eleni y bydd angen cynnwys adolygiad gan gymheiriaid neu dystiolaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf. Fel y trafodwyd, mae'n hanfodol eich bod yn cynnwys hyn fel tystiolaeth ategol yn eich arfarniad y flwyddyn nesaf (*nodwch y flwyddyn*) os byddwch yn parhau yn y rôl/rolau. Os nad ydych chi'n gallu ymgymryd ag arfarniad ar gyfer y rôl/rolau hynny, mae'n rhaid i chi gysylltu â'ch Swyddog Cyfrifol (RO) enwebedig (*nodwch y cyswllt*) i gael cyngor ynghylch eu gofynion o ran rhoi sylw digonol i'r rôl/rolau. Yn eich arfarniad nesaf, bydd yr Arfarnwr yn gwirio a oes adolygiad gan gymheiriaid wedi cael ei gynnal.

Yn gywir

*(nodwch enw'r Arfarnwr)*
**Cc Cydlynydd Arfarnu / Arweinydd Arfarnu**
**Swyddog Arfarnu (** heiw.appraisalofficer@wales.nhs.uk **) / Tîm Ailddilysu Lleol**

**Atodiad 3**

**WP2: Llythyr gan y Cydlynydd Arfarnu/Arweinydd Arfarnu i'r RO**

***(Dyddiad)***

**Derbynnydd yn Unig**

**Ynghylch: Peidio â chynnwys adolygiad perfformiad ar gyfer rôl/rolau allanol am flynyddoedd olynol**

**Annwyl (*nodwch enw'r* RO)**

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi hysbysiad ffurfiol i chi bod (*nodwch enw llawn y Meddyg) (nodwch rif GMC*) wedi cynnal dau werthusiad (*nodwch ddyddiad 1*) a (*nodwch ddyddiad 2*). Yn ystod cylch arfarnu blaenorol y meddyg cawsant eu cynghori yn y drafodaeth arfarnu, ac ar ôl eu harfarnu, yn ysgrifenedig gan ddefnyddio WP1 y Protocol Llywodraethu, bod yn rhaid iddynt gynnwys adolygiad perfformiad ar gyfer y rôl fel (*nodwch y rôl*). Ar ben hynny, fe'u cynghorwyd i gysylltu â'u RO enwebedig i gael cyngor os oeddent yn rhagweld unrhyw anawsterau o ran darparu adolygiad perfformiad i'w gynnwys yn yr arfarniad eleni ar gyfer y rôl/rolau uchod.

Yn anffodus, am flwyddyn yn olynol nid oedd gan y ffolder arfarnu unrhyw ddogfennau ategol ar gyfer y rôl/rolau uchod. Felly, nid yw'r Arfarnwr yn gallu dilysu bod y meddyg yn bodloni gofynion y GMC ar gyfer arfarniad ymarfer cyfan.

Fel RO enwebedig y meddyg, rwy'n cyfeirio'r achos hwn yn swyddogol atoch chi i'w ystyried.

Gallaf gadarnhau bod hyn wedi cael ei drafod gyda'r meddyg yn ystod eu harfarniad a'i fod wedi'i gynnwys yn eu Cynllun Datblygu Personol.

Yn gywir,

Cydlynydd Arfarnu / Arweinydd Arfarnu
**Cc Swyddog Arfarnu (heiw.appraisalofficer@wales.nhs.uk) / Swyddfa Ailddilysu Lleol**

**Atodiad 4**

**Cwestiynau Cyffredin**

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| A oes angen i feddygon gynnwys y wybodaeth ategol ar gyfer pob rôl yn ystod y cylch ailddilysu? | Nac oes. Mae'r GMC yn mynnu bod holl ymarfer y meddyg wedi cael ei werthuso, ond nid o reidrwydd bod pob eitem o wybodaeth ategol wedi cael ei darparu, ar gyfer pob rôl. Mae angen ystyried cymesuredd faint o dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer rôl/rolau gwahanol a faint o oruchwyliaeth sy'n cael ei darparu yn y rôl/rolau eraill. Gellir mynd i'r afael â rhai o'r cwestiynau a awgrymir yn y canllawiau uchod cyn yr arfarniad drwy adolygu'r deunyddiau arfarnu, fel na fyddai angen trafod y rhain yn ystod y cyfarfod arfarnu. |
| Ydyn ni'n mynd i hysbysebu Arfarnwyr gyda gwahanol arbenigeddau er mwyn gallu 'cyfateb' arfarneion gydag Arfarnwyr sydd â rolau cymharol? | Na. Gellir darparu rhywfaint o wybodaeth yn y bywgraffiadol **OND** rhaid i'r arfarniad aros yn gyffredinol. |
| Beth yw'r diffiniad o 'sefydliad'? | Gellir adnabod unrhyw Gorff Dynodedig fel sefydliad. Y tu hwnt i Gyrff Dynodedig, gellir defnyddio'r diffiniad yn hyblyg. Os ydych chi'n ansicr, trafodwch hyn gyda'ch Cydlynydd Arfarnu/Arweinydd Arfarnu. |
| Beth mae gofyn i ni ei gadarnhau? | A oes tystiolaeth o weithgarwch addysgol rhesymol mewn perthynas â rôl/rolau gwahanol – naill ai drwy adolygiad gan gymheiriaid ar wahân neu wedi'i gynnwys yn yr arfarniad. Dylid cofnodi hyn yn glir yn y crynodeb. |
| A yw Y tu Allan i Oriau, hyfforddiant meddyg teulu, gwleidyddiaeth feddygol, 'Samariad da', cyfrannu at ddigwyddiadau lleol, yn rhan o'r rôl sy'n gysylltiedig â meddyg teulu? | Ydyn. Dylid defnyddio synnwyr cyffredin. |
| Os bydd llythyr WP1 yn cael ei anfon, a oes rhaid cwblhau'r camau gweithredu (h.y. adolygiad | Na – Mae'r llythyr WP1 yn ymwneud â'r flwyddyn i ddod a'r arfarniad nesaf. |

| | |
|---|---|
| gan gymheiriaid)<br>cyn y gellir cymeradwyo'r arfarniad? | |

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| | |
| A oes unrhyw rolau na ddylai Arfarnwyr eu harfarnu? | Mae angen ystyried cymesuredd – os oes rôl sylweddol byddech yn disgwyl gweld adolygiad gan gymheiriaid. Bydd angen i chi hefyd ystyried a yw'r sgiliau sy'n cael eu defnyddio yn gwbl wahanol |
| Beth am rolau sy'n gofyn am gofrestriad GMC ond nid trwydded i ymarfer e.e. meddygon tribiwnlys? | Does dim rhaid i feddygon heb drwydded ailddilysu. |
| Beth am feddygon teulu heb ddim neu fawr ddim ymarfer cyffredinol? | Ydyn nhw ar Restr Cyflawnwyr Meddygol (MPL)? A oes digon o ddeunydd meddyg teulu i seilio trafodaeth ystyrlon arno? Os nad oes, cyfeiriwch at y Cydlynydd Arfarnu i'w drafod gyda'r Cyfarwyddwr Meddygol. |
| A oes angen isafswm ymarfer clinigol i aros ar y MPL? | Mae angen rhywfaint o ymarfer clinigol yn ystod y flwyddyn i aros ar y MPL ond nid yw hyn yn cael ei fesur. Os nad ydych yn ymarfer am fwy na dwy flynedd, bydd angen i chi ddilyn cynllun dychwelyd ffurfiol. |
| Beth am feddyg sy'n cynnal wyth sesiwn yn yr ysbyty ac un sesiwn fel meddyg teulu, sydd eisiau i'w arfarniad meddyg teulu fod yn brif arfarniad? | Mae hyn yn iawn os yw'r Swyddog Cyfrifol yn hapus cyn belled â bod rôl yr ysbyty'n cael sylw, yn unol â'r canllawiau, drwy adolygiad gan gymheiriaid ar wahân gan ei fod yn rôl sylweddol. Ar y llaw arall, os mai'r arfarniad ysbyty fydd y prif arfarniad, mae'n bwysig bod rôl y meddyg teulu yn cael sylw yn yr arfarniad hwnnw. |